**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog
Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi.
Llywodraeth Cymru

19 Rhagfyr 2023

**Datganiad ar y Cyd ar Gydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Baden-Württemberg**

Annwyl Mark a Vaughan,

Ysgrifennaf atoch ynghylch y Datganiad ar y Cyd ar Gydweithrediad a gwblhawyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Baden-Württemberg a gyhoeddwyd ar 14 Tachwedd 2023.

Hyd yn hyn, mae'r Pwyllgor wedi cynnal ymchwiliad manwl i'r Cyd-ddatganiad a'r Cynllun Gweithredu ar y Cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Iwerddon. Ffrwyth y gwaith hwn oedd ein hadroddiad, a ddilynwyd gan ddadl gynhyrchiol a gwerthfawr yn y Senedd ar 29 Tachwedd 2023. Fe fyddwch yn ymwybodol bod argymhelliad 11 o'n hadroddiad yn argymell:

> *Lle mae Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu ymagwedd debyg at berthnasoedd rhyngwladol eraill sy'n cael blaenoriaeth, dylai gynnwys canfyddiadau'r adroddiad hwn o'r cychwyn cyntaf.*

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn yn ei hymateb ysgrifenedig i'r adroddiad.

Er ichi gyhoeddi datganiad i'r wasg ar wefan Llywodraeth Cymru, yn ogystal â diweddaru tudalen we'r cytundebau dwyochrog rhyngwladol, nodaf nad yw'n ymddangos bod unrhyw fanylion pellach ar gael am y cytundeb diweddaraf hwn. Byddwn yn ddiolchgar o gael deall pam y mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyn lleied o fanylion y tro hwn, o gymharu â swmp y wybodaeth a gyhoeddwyd am y cytundeb rhwng eich Llywodraeth ac Iwerddon. Hoffwn nodi hefyd ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth Baden-Württemberg wedi mabwysiadu dull gwahanol, drwy gyhoeddi cyhoeddiad manwl a thestun llawn y Cyd-ddatganiad yn Almaeneg a Saesneg.

Yng ngoleuni'r ymateb cadarnhaol a gawsom gan y Prif Weinidog i argymhellion y Pwyllgor ar gytundebau dwyochrog rhyngwladol yn y dyfodol, ac yn wir yng ngoleuni'r ysbryd adeiladol y mae Llywodraeth Cymru wedi ei ddangos i'n gwaith craffu ehangach ar gysylltiadau rhyngwladol, byddwn wedi gobeithio gweld copi o'r Cyd- ddatganiad hwn yn cael ei rannu'n rhagweithiol â'r Pwyllgor hwn.

Er mwyn llywio rhaglen waith y Pwyllgor yn y dyfodol, byddwn yn ddiolchgar pe gallech:

- Ddarparu copi o'r cytundeb i'r Pwyllgor hwn;
- Cadarnhau a gytunwyd ar unrhyw gynlluniau gweithredu cysylltiedig ac, os felly, rhannu copïau ohonynt â'r Pwyllgor; a
- Chadarnhau sut y mae, neu sut y bydd, argymhelliad 11 o'r adroddiad ar cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cael ei weithredu mewn perthynas â'r cytundeb hwn.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Yn gywir

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.